**Cynnig Grant**

Mae Bwyd Caerdydd yn cynnig grantiau bach o £50, £100, £150 neu £200 i alluogi grwpiau dielw i gynnal digwyddiadau neu weithgareddau fel rhan o'r ŵyl. Gellir defnyddio'r arian ar gyfer costau gweithgaredd (er enghraifft, hadau, trafnidiaeth, technoleg, bwyd ac ati), cyfarpar (er enghraifft, hobiau anwytho, oergelloedd, offer garddio gwydn, gorsafoedd compost ac ati), costau staff, neu gyfuniad o'r tri.

Rydym yn gwahodd ceisiadau am ddigwyddiadau sy'n hyrwyddo'r 5 Nod ar gyfer Bwyd Da ac sy'n cael eu cynnal yn ardal Awdurdod Lleol Caerdydd rhwng 1 a 30 Medi 2024.

Darllenwch y 5 Nod ar gyfer Bwyd Da: Ein 5 nod ar gyfer bwyd / https://foodcardiff.com/our-5-food-goals

**Llinell Amser**

Bydd ceisiadau'n cael eu hasesu ar sail dreigl hyd at 19 Gorffennaf, felly byddwn yn ymdrechu i roi gwybod i chi am y canlyniad o fewn 7 diwrnod gwaith o gyflwyno'ch cais.

**Meini Prawf Hanfodol**

• Gweithgareddau/digwyddiadau bwyd sy'n ennyn diddordeb pobl mewn tyfu, prynu, coginio, bwyta a rhannu bwyd da; yn unol â'r 5 Nod ar gyfer Bwyd Da.

• Gweithgareddau/digwyddiadau bwyd a fydd yn cael eu cynnal yng Nghaerdydd rhwng 1 a 30 Medi 2024. Gall y rhain fod yn rhithwir neu wyneb yn wyneb. Os yw'r digwyddiadau'n rhithwir, rhaid iddynt dargedu trigolion Caerdydd yn benodol.

• Gweithgareddau/digwyddiadau bwyd nad ydynt eisoes wedi'u hariannu (oni bai bod manteision ychwanegol iddynt e.e. cynyddu nifer y mynychwyr)

• Grwpiau a lleoliadau dielw gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i; grwpiau cymunedol lleol, meithrinfeydd, ysgolion, cartrefi gofal, lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol, cymdeithasau tai, elusennau. Rhaid bod gan grwpiau cymunedol gyfrif banc yn enw'r grŵp.

Os nad ydych yn perthyn i'r categori hwn ond yr hoffech gymryd rhan yng Ngŵyl yr Hydref (e.e. cymdogaeth sydd eisiau cynnal parti stryd) cysylltwch â foodsensewales@wales.nhs.uk

**Meini Prawf Dymunol**

• Eleni mae gennym ddiddordeb arbennig mewn digwyddiadau/gweithgareddau sy'n dathlu bwyd sydd yn ei dymor ym mis Medi a/neu weithgareddau sy'n canolbwyntio ar fwyd sy'n gyfeillgar i'r blaned.

• Digwyddiadau/Gweithgareddau sy'n dod â phobl, cartrefi, strydoedd, cymdogaethau a chymunedau ynghyd drwy fwyd

• Digwyddiadau/Gweithgareddau sy'n cael eu datblygu ar y cyd â'r bobl a'r cymunedau a fydd yn elwa

• Digwyddiadau/Gweithgareddau sydd o fudd i amrywiaeth eang o gymunedau ledled Caerdydd

**Sut i wneud cais:**

Llenwch y ffurflen ar-lein erbyn 19 Gorffennaf:
https://forms.office.com/pages/responsepage.aspx?id=uChWuyjjgkCoVkM8ntyPrguJmuraG1FDiW2kDMarT0VUQzdGN1RaSVJXTVZIM1pFQ1pSWjdBNVYwRy4u

Gellir cyflwyno rhan o'r cais fel fideo neu fel testun.

Rydym yn derbyn ceisiadau yn Gymraeg neu Saesneg (mae botwm newid iaith ar y ffurflen ar-lein).

Os oes angen unrhyw fformat arall neu gymorth arnoch, cysylltwch â foodsensewales@wales.nhs.uk.

**Sut y byddwn yn prosesu eich cais**

Byddwch yn derbyn e-bost oddi wrthym yn cadarnhau ein bod wedi derbyn eich cais. Cytunir ar benderfyniadau ar geisiadau gan Bwyd Caerdydd ac mae pob penderfyniad yn derfynol. Mae'n bosibl y byddwn yn gofyn i chi am ragor o wybodaeth. Yn anffodus, ni allwn roi adborth ar geisiadau grant aflwyddiannus.

**Telerau ac Amodau Grant**

Cliciwch yma i'w darllen: https://foodcardiff.com/wp-content/uploads/2024/06/240606-Grant-Terms-and-Conditions.docx.pdf

**Cyswllt**
Os oes gennych gwestiynau'n ymwneud â chyflwyno eich cais, anfonwch e-bost i foodsensewales@wales.nhs.uk